

in partnership with



DIOGELWCH TÂN AR GYCHOD

South Wales
Fire and Rescue Service



Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

CYDWEITHIO I WNEUD CYMRU'N FWY DIOGEL

A oeddech chi'n gwybod?

Mae larymau a synwryddion yn achub bywydau

- Ar gyfartaledd, mae 89 o ddamweiniau sy'n gysylltiedig â thanau yn digwydd ar gychod bob blwyddyn.
- Mae tanau ar gychod preifat yn lladd o leiaf tri pherson bob blwyddyn.

Mae'r daflen hon yn cynnig awgrymiadau a chyngor ar sut i ddiogelu eich cwch a'r criw rhag tân, a beth i'w wneud mewn achos o dân.

Gall tân ledaenu'n gyflym ar gychod, hyd yn oed ar y dŵr. Gall larymau a synwryddion helpu i gadw eich criw yn ddiogel.


Larymau mwg

- Larymau synhwyro optegol gyda botymau tawelu a batris wedi eu selio am oes yw'r rhai gorau ar gyfer cychod. Ewch i www.boatsafetyscheme.com/fre i gael cyngor ac arweiniad.
- Gosodwch larymau mewn lleoedd y byddwch yn gallu eu clywed yn glir os ydynt yn canu.
- Ystyriwch osod larymau sydd wedi eu cysylltu a fydd yn canu ar yr un pryd.
- Profwch y larwm wrth fynd ar fwrdd y cwch. Peidiwch byth â datgysylltu na thynnu batris sy'n

gweithio.

Synwryddion carbon monocsid (CO) a nwy

- Gosodwch synhwyrydd CO i rybuddio am unrhyw garbon monocsid gwenwynig.
- Sicrhewch fod eich synhwyrydd yn addas i'w ddefnyddio ar y môr a'i fod yn bodloni'r safonau BS7860 neu EN50291.
- Gosodwch synhwyrydd gollyngiadau math swigod yn y coffor nwy.
- Gwthiwch fotwm y synhwyrydd yn rheolaidd i wirio am ollyngiadau yn y system nwy.
- Chwiliwch am y symbolau 'cymeradwy' hyn wrth brynu larymau a synwryddion:




Gosodwch larymau a synwryddion i gadw'n ddiogel.

Coginio a gwresogi diogel

Diffoddwch ddyfeisiau coginio yn gywir ar ôl eu defnyddio.

- Peidiwch â gadael bwyd yn coginio heb unrhyw un i gadw llygad arno. Diffoddwch bethau nes y dewch yn ôl.
- Byddwch yn ofalus dros ben wrth goginio gydag olew – mae'n cynnau'n hawdd.
- Ceisiwch osgoi coginio os ydych wedi blino. Cofiwch, gall cyffuriau presgripsiwn ac alcohol beri blinder.
- Cadwch y man lle rydych yn coginio yn lân - gall haen ar ôl haen o fraster Gronni a chynnuau tân.
- Dyfeisiau gwreichion (taniwr nwy priodol) yw'r ffordd fwyaf diogel i gynnau stof heb ei thaniwr ei hun.
- Ni ddylech ddefnyddio barbeciws safonol ar gychod.
- Cadwch gyfarpar awyru'r caban yn glir er mwyn atal nwy CO rhag cronni.
- Ceisiwch gadw defnyddiau oddi wrth y stof er mwyn eu hatal rhag mynd ar dân.
- Gwiriwch ffliwiau stofiau sy'n llosgi glo a choed am ollyngiadau a rhwystrau.
- Defnyddiwch y tanwydd sy'n cael ei argymhell gan wneuthurwr y gwresogydd yn unig. Gall mathau eraill losgi ar wres rhy uchel.
- Cliriwch y lludw'n ofalus. Os yw'n dal yn boeth gallai achosi tân neu gallai nwy CO Gronni.
- Gwnewch yn siŵr bod gan bob hob falffiau sy'n cau neu falffiau ynysu.



Diffoddwch ddyfeisiau yn gywir ar ôl i chi eu defnyddio.

Diogelu y tu mewn i'ch cwch

Sigaréts

Rhaid cael gwared ar sigaréts yn ofalus. Diffoddwch nhw – yn llwyr!

- Cadwch sigaréts neu bibau oddi wrth unrhyw bethau a allai fynd ar dân, fel llenni.
- Peidiwch byth ag ysmegu wrth ail-lenwi tanciau â thanwydd neu wrth newid silindr nwy.
- Defnyddiwch flwch llwch priodol a fydd yn aros yn ei le ar gwch.
- Ceisiwch osgoi ysmegu os ydych yn gysglyd er mwyn osgoi damwain.
- Gwagiwch flychau llwch yn rheolaidd. Gallai lludw sy'n cronni fynd ar dân.

Dodrefn

- Ceisiwch ddewis dodrefn sy'n dangos y label diogel rhag tân.
- Cadwch ddefnyddiau a phapurau oddi wrth unrhyw beth poeth fel hob, fflwiau a bylbiau golau.
- Gall y gwres o fylbiau golau achosi tân. Nid yw bylbiau arbed ynni yn mynd mor boeth ac felly maent yn fwy diogel.
- Cymerwch fwy o ofal gyda chanhwyllau sydd ynghyn. Peidiwch â'u gadael heb rywun i gadw llygad arnynt.
- Defnyddiwch ddalwyr sy'n aros yn eu lle, oherwydd gallai cwch sy'n siglo neu ysgytiad sydyn achosi i ganhwyllau syrthio.
- Diffoddwyr canhwyllau yw'r ffordd fwyaf diogel i ddiffodd canhwyllau ac i atal gwreichion rhag tasgu.



Diffoddwch sigaréts yn gywir.

Diogelwch tanwydd ac ynni

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio ac yn cynnal systemau tanwydd, nwy a thrydan eich cwch yn rheolaidd.

Cynnal a chadw'r motor

- Peidiwch â gadael i olew neu sbwriel gronni yng ngwaelodion y cwch.
- Gwiriwch ddefnydd lapio pibellau gwagio'r motor a'r gwresogyddion am ddifrod a dirywiad ac archwiliwch eitemau cyfagos am ddifrod gwres neu losgi.
- Gwiriwch bibellau gwagio motorau mewnol am ollyngiadau.
- Chwiliwch am uniadau tanwydd rhydd, tanciau tanwydd wedi'u difrodi neu bibellau sy'n dirywio.

Diogelwch tanwydd

- Cymerwch ofal wrth lenwi tanciau â thanwydd. Diffoddwch unrhyw fflamau noeth yn gyntaf. Diffoddwch y motor ac unrhyw beth sy'n coginio cyn trin unrhyw danwydd.
- Rhwystwrch anwedd petrol rhag mynd i'r cwch drwy gau'r drysau, y ffenestri neu'r hatshis a chau'r cyfnas.
- Llenwch fotorau a generaduron allanol ymhell oddi wrth y cwch.
- Gall gollyngiadau, arllwysladau ac anweddau gynnu'n hawdd. Glanhewch nhw ar unwaith a gwnewch yn siŵr bod y capiau llenwi'n cael eu rhoi'n ôl yn eu lle ar ôl ail-lenwi tanwydd.
- Dim ond os yw'n angenrheidiol ddylid cario petrol ychwanegol a dylid ei storio mewn coffor sy'n draenio ei hun ar fwrdd y cwch.

Awgrym da



Gwnewch waith cynnal a chadw ar fotor a systemau tanwydd eich cwch yn rheolaidd.



Diogelwch tanwydd ac ynni

Diogelwch nwy

- Gwnewch yn siŵr bod dyfeisiau nwy wedi eu gosod a'u cynnal a'u cadw yn rheolaidd gan unigolion cymwys.
- Peidiwch â rhwystro llif awyr drwy flocio tyllau awyr neu fylchau awyr.
- Gwnewch yn siŵr bod silindrau nwy yn sounnd yn eu lle ar ôl i chi eu newid. Gwiriwch am ollyngiadau gyda hylif synhwyro.
- Os yw'n bosibl, diffoddwch falfiau nwy cyn i chi fynd i'r gwely neu cyn gadael y cwch.
- Adnewyddwch bibellau nwy sy'n dangos arwyddion o gracio, breuder neu golli lliw.
- Storiwch silindrau nwy y tu allan, mewn coffor sy'n draenio ei hun ac sy'n ddiogel rhag tân. Cadwch nhw am i fyny ac wedi eu clymu'n dynn fel na allant symud.

Offer trydan

- Chwiliwch am y marc diogelwch Prydeinig neu Ewropeaidd pan fyddwch yn prynu offer trydan.
- Defnyddiwch drydanwr morol cymwys i osod a gwasanaethu eich offer trydan.
- Peidiwch â gorlwytho addaswyr. Cadwch at un plwg fesul soced. Defnyddiwch y ffiws cywir neu dorrrwr cylched i osgoi gorboethi.
- Datgysylltwch y plygiau pan nad ydych yn defnyddio offer trydan neu pan fyddwch yn gadael y cwch.
- Gall gwifrau sydd wedi eu difrodi orboethi'n gyflym. Felly chwiliwch am farciau llosg neu arogleuon llosgi.
- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth ailosod batris y cwch. Gwiriwch fod strapiau neu ffrwynau yn ddiogel yn eu lle wedi hynny.



Lluniwch gynllun brys

Lluniwch gynllun brys ar y cyd â phawb arall sydd ar fwrdd y cwch cyn cychwyn allan.

- Gwnewch yn siŵr bod pobl yn gwybod sut i gau falfiau a switshis brys yn achos tân.
- Cadwch dortsh wrth law i'ch helpu i ddianc yn y nos. Gwnewch yn siŵr bod gennych rai sbâr a phrofwch nhw'n rheolaidd.
- Peidiwch â mynd i'r môr heb radio VHF. Gwnewch yn siŵr bod gennych un sydd wedi ei wefru, y gallwch ei ddal yn eich llaw, ac sy'n dal dŵr yn barod i'w ddefnyddio ar unrhyw adeg.
- Peidiwch â dibynnu ar ffôn symudol. Efallai na fydd unrhyw signal ac mae'n bosibl na fydd yn dal dŵr.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych ddigon o siacedi achub ar gyfer pawb sydd ar fwrdd y cwch, a chadwch nhw mewn cyflwr da.




- Cadwch allanfeydd yn glir ac allweddi wrth law. Peidiwch â chloi na bolltio drysau a hatshis o'r tu allan.
- Traciwch eich lleoliad fel y gallwch ddweud wrth y gwasanaethau brys lle rydych os oes angen.

**GWNEWCH
ALWAD
MAYDAY**



**A CHWILIWCH
AM DIRNODAU**



Beth i'w wneud os oes tân


- Peidiwch â mynd i mewn i le sy'n llawn mwg.
- Os ydych eisoes mewn lle sy'n llawn mwg cadwch yn isel i lawr lle mae'r aer yn gliriach.
- Os oes rhaid i chi dorri gwydr i ddianc, defnyddiwch flanced i osgoi anafiadau.
- Rhwystrwch ragor o aer rhag cyrraedd y tân. Peidiwch ag agor hatshis na drysau oni bai bod rhaid.

Tanau mewndirol

- Os ydych yn agos at y lan neu wedi angori, symudwch bawb oddi ar y cwch a ffoniwch 999 ar unwaith.

Tanau ar y môr

- Os ydych allan ar y môr, ewch mor bell oddi wrth y tân ag y gallwch ar fwrdd y cwch. Rhowch siaced achub i bawb.
- Ewch â radio VHF llaw gyda chi ar fwrdd y cwch i ffonio am help.
- Hysbyswch Wylwyr y Glannau dros y radio, gwnewch alwad am help a/neu anfonwch signal argyfwng.




Ewch allan, arhoswch allan ac arhoswch am y gwasanaeth tân.


Blancedi tân a diffoddwyr tân

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae defnyddio unrhyw ddiffoddwyr tân sydd ar y cwch. Darllenwch y cyfarwyddiadau bob tro cyn eu defnyddio.

- Defnyddiwch ddiffoddwr tân i daclo tân os ydych yn hyderus eich bod yn gwybod sut i'w ddefnyddio. Os oes gennych unrhyw amheuan, ewch oddi ar y cwch.
- Cadwch flancedi tân a diffoddwyr tân o fewn cyrraedd hawdd, yn agos at allanfeydd a manau risg, fel y gali a ger y motor.
- Gwiriwch ddiffoddwyr yn rheolaidd am dolciau difrifol, gollyngiadau a cholli pwysedd.
- Gwiriwch y pin a'r mecanwaith tanio am unrhyw arwydd o broblemau neu wendidau.
- Gwiriwch y dyddiadau ar ddiffoddwyr a blancedi tân a gwasanaethwch neu newidiwch nhw yn unol â'r cyfarwyddiadau.
- Defnyddiwch ddiffoddwyr gyda nod cymeradwy cydnabyddedig fel y rhain:



Awgrym da



Darllenwch y cyfarwyddiadau bob amser.

Rhagor o wybodaeth

- Am ragor o wybodaeth am ddiogelwch tân ar gychoed ac archwiliadau diogelwch rheolaidd ewch i www.boatsafetyscheme.com
- Am ragor o wybodaeth am synwryddion carbon monocsid ewch i www.hse.gov.uk
- Am wybodaeth am reoliadau ar y môr ac argyfyngau ar y môr ewch i wefan Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau yn www.mcga.gov.uk
- Am gyngor, archwiliadau ar offer brys a gwybodaeth achub brys cysylltwch â Sefydliad Brenhinol Cenedlaethol y Badau Achub (RNLI) ar www.rnli.org.uk
- Am wybodaeth am ddigwyddiadau yn y gorffennol a'r gwersi a ddysgwyd, ac i roi gwybod am ddamweiniau, ewch i wefan y Gangen Ymchwiliadau Damweiniau Morol ar www.maib.gov.uk

Cyngor ar Gychoed

- Ar gyfer adeiladwyr cychod a pheirianwyr gwasanaeth cysylltwch â Ffederasiwn Morol Prydain www.britishmarine.co.uk
- Am gyngor ar fordwyo, trin cychod a hyfforddiant brys cysylltwch â Chymdeithas Hwyllo Prydain www.rya.org.uk

Diogelwch tân yn gyffredinol

- Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân ac Achub Lleol i gael cyngor am ddim. Cewch eu rhif ffôn yn y llyfr ffôn lleol.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

www.decymru-tan.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

www.tancgc.gov.uk

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

www.gwastan-gogcymru.org.uk



RHESTR WIRIO DIOGELWCH TÂN

Cofiwch yr awgrymiadau hyn
i'ch helpu chi i gadw'n ddiogel
ar fwrdd eich cwch.



Cofiwch

Cadwch y nodyn atgoffa cyfleus hwn o'n hawgrymiadau da.

Gosodwch larymau mwg a synwryddion carbon monocsid a nwy ar y cwch.



Diffoddwch y tanwydd yn gywir ar ôl i chi ei ddefnyddio.



Gwaredwch sigarêts yn ofalus. Diffoddwch nhw yn llwyr.



Gwnewch yn siŵr bod dyfeisiau'n cael eu gosod yn eu lle a'u cynnal a'u cadw gan unigolyn cymwys.



Cliriwch unrhyw golledion tanwydd ar unwaith.



Cynlluniwch eich gweithdrefn argyfwng a gwnewch yn siŵr bod pawb sydd ar fwrdd y cwch yn ymwybodol ohoni.



Os ydych wedi angori'n agos i'r lan, symudwch bawb oddi ar y cwch a ffoniwch 999 ar unwaith.



Os ydych allan ar y môr ewch mor bell o'r tân ag y gallwch ar fwrdd y cwch. Rhowch siaced achub i bawb a gwnewch alwad am help.



Osgowch ymladd y tân eich hun. Ewch allan, arhoswch allan ac arhoswch am y Gwasanaeth Tân ac Achub.



Cadwch flancedi tân a diffoddwyr tân ger allanfeydd a manau risg, fel y gali a'r ardal o gwmpas y motor. Ni ddylech eu defnyddio os nad ydych yn gwybod sut mae gwneud hynny.

